

Pennod IV C

**RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â
GWEINYDDU PLWYFI**

**REGULATIONS RELATING TO
PAROCHIAL ADMINISTRATION**

Chapter IV C

CHAPTER IV C

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â GWEINYDDU PLWYFI

Rhan 1:	Cwrdd Festri Blynyddol a Chyrrddau Festri Eraill
	1
	2
	3
	4
	5
Rhan II:	Cyrrddau Cynulleidfaol
	6
Rhan III:	Y Rhôl Etholwyr
	7
	8
	9
Rhan IV:	Y Cyngor Plwyf Eglwysig
	10 Galluoedd a Dyletswyddau
	11
	12
	13 Aelodaeth
Rhan V:	Wardeniaid, Is-wardeniaid ac Ystlyswyr
	14 Wardeniaid
	15 Is-wardeniaid
	16 Ystlyswyr
Rhan VI:	Gweinyddiaeth Gyffredinol Plwyfi
	17 Infentoriau
	18 Rhoddion
	19

CHAPTER IV C

REGULATIONS RELATING TO PAROCHIAL ADMINISTRATION

Part 1:	Annual and Other Vestry Meetings
	1
	2
	3
	4
	5
Part II:	Congregational Meetings
	6
Part III:	The Electoral Roll
	7
	8
	9
Part IV:	The Parochial Church Council
	10 Powers and Duties
	11
	12
	13 Composition
Part V:	Churchwardens, Subwardens and Sidespersons
	14 Churchwardens
	15 Subwardens
	16 Sidespersons
Part VI:	General Parochial Administration
	17 Inventories
	18 Gifts
	19

Rheoliadau'r Corff Llywodraethol yn ymwneud â Gweinyddu Plwyfi

Yn unol â'i alluoedd o dan Bennod II y Cyfansoddiad, y mae'r Corff Llywodraethol trwy hynyma yn gwneud y rheoliadau a ganlyn o dan y teitl "Rheoliadau'r Corff Llywodraethol yn ymwneud â Gweinyddu Plwyfi", a draethir fel a ganlyn:

Rhan I: Cwrdd Festri Blynyddol a Chyrrddau Festri Eraill

Rhan II: Cyrddau Cynulleidfaol

Rhan III: Y Rhôl Etholwyr

Rhan IV: Y Cyngor Plwyf Eglwysig

Rhan V: Wardeniaid, Is-wardeniaid ac Ystlyswyr

Rhan VI: Gweinyddiaeth Gyffredinol Plwyfi

Rhan I: Cwrdd Festri Blynyddol a Chyrrddau Festri Eraill

1. Cynhelir y Cwrdd Festri Blynyddol heb fod yn ddiweddarach na 30 Ebrill bob blwyddyn.
- 2.1 Gelwir pob Cwrdd Festri gan:
 - 2.1.1 y Periglor neu, os bydd ef yn absennol neu'n analluog, gan y Wardeniaid;
 - 2.1.2 mewn plwyf sy'n wag neu wedi'i atal, gan y clerig-mewn-gofal, os penodwyd un;
 - 2.1.3 oni phenodwyd clerig-mewn-gofal, gan y Deon Bro neu un a enwebodd; neu
 - 2.1.4 pan fo swydd y Deon Bro yn wag, gan yr archddiacon neu un a enwebodd;
ac ym mhob achos trwy rybudd a arwyddwyd gan y person neu'r personau sy'n galw'r cyfarfod yn gosod yr agenda a lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfod.
- 2.2 Gosodir y cyfryw rybudd yn ymyl prif ddrws eglwys neu eglwysi'r plwyf a phob adeilad arall yn y Plwyf a ddefnyddir at addoli'n gyhoeddus ac sy'n perthyn i'r Eglwys yng Nghymru am gyfnod a fydd yn cynnwys y ddau Sul cyn y cyfarfod, a rhoddir hefyd rybudd llafar o'r cyfarfod ym mhrif wasanaethau'r Plwyf yn ystod yr un cyfnod.
- 3.1 Y Periglor fydd cadeirydd y Cwrdd Festri, os nad yw'n dymuno'n wahanol.
- 3.2 Mewn plwyf sy'n wag neu wedi'i atal, y clerig-mewn-gofal, os penodwyd un, fydd y cadeirydd, os nad yw'n dymuno'n wahanol.
- 3.3 Pan fo plwyf yn wag neu wedi'i atal a heb glerig-mewn-gofal, y Deon Bro, neu un a enwebodd, fydd y cadeirydd. Pan fo swydd y Deon Bro yn wag, y cadeirydd fydd yr Archddiacon neu un a enwebodd.

Governing Body Regulations relating to Parochial Administration

In exercise of its powers under Chapter II of the Constitution the Governing Body hereby makes the following regulations entitled "Governing Body Regulations relating to Parochial Administration", which are set out as follows:

- Part I: Annual and Other Vestry Meetings
- Part II: Congregational Meetings
- Part III: The Electoral Roll
- Part IV: The Parochial Church Council
- Part V: Churchwardens, Subwardens and Sidespersons
- Part VI: General Parochial Administration

Part I: Annual and Other Vestry Meetings

1. The Annual Vestry Meeting shall be held not later than 30th April in each year.
- 2.1 Every Vestry Meeting shall be called by:
 - 2.1.1 the Incumbent, or in his or her absence or incapacity the Churchwardens; or
 - 2.1.2 in a vacancy or suspended incumbency, the cleric in charge where appointed; or
 - 2.1.3 where no cleric in charge has been appointed the Area Dean or his or her nominee; or
 - 2.1.4 where the office of Area Dean is vacant, by the Archdeacon or his or her nominee;and in each case by notice signed by the person or persons calling the meeting, setting out the agenda and stating the place, day and hour of the meeting.
- 2.2 Such notice shall be displayed near the principal door of the church or churches and of every other building in the Parish used for public worship and belonging to the Church in Wales, for a period including the two Sundays immediately preceding the day of the meeting; oral notice of the meeting shall also be given at the principal services in the Parish during such period.
- 3.1 The Incumbent shall take the chair at a Vestry Meeting unless he or she otherwise wishes.
- 3.2 In a vacancy or suspended incumbency the cleric-in-charge, where appointed, shall take the chair unless he or she otherwise wishes.
- 3.3 In a vacancy or suspended incumbency where no cleric-in-charge has been appointed, the chairman shall be the Area Dean or his or her nominee. Where the office of Area Dean is vacant, the chairman shall be the Archdeacon or his or her nominee.

- 3.4 Mewn Bywoliaeth Reithorol gall Ficer a enwir gan y Rheithor gadeirio. Pan fo Bywoliaeth Reithorol yn wag, y cadeirydd fydd Ficer yn y fywoliaeth honno a ddewiswyd gan y Deon Bro neu, pan fo swydd y Deon Bro yn wag, gan yr Archddiacon.
- 3.5 Ym mhob amgylchiad arall, dewisir y cadeirydd gan y Cwrdd.
- 3.6 Bydd gan y cadeirydd bleidlais fwrw, ond pan fo'r cadeirydd yn glerig ni chymhwysir y ddarpariaeth hon at ethol lleygwyr.
- 4.1 Bydd hawl gan y personau a ganlyn i fod yn bresennol, i siarad ac i bleidleisio mewn Cyrddau Festri:
 - 4.1.1 y Periglor neu, mewn plwyf gwag neu blwyf wedi'i atal, y clerig-mewn-gofal, os penodwyd un neu, oni phenodwyd clerig-mewn-gofal, y Deon Bro neu'r Archddiacon fel y bo'n briodol;
 - 4.1.2 Ficeriaid mewn Bywoliaeth Reithorol;
 - 4.1.3 Curadiaid Cynorthwyol;
 - 4.1.4 Diaconesau;
 - 4.1.5 Gweithwyr Lleyg cyflogedig amser-llawn;
 - 4.1.6 Clerigion eraill â chanddynt drwydded neu ganiatâd i weinyddu ac sy'n preswyllo yn y Plwyf, a heb fywoliaeth na thrwydded mewn unrhyw Blwyf arall; ac
 - 4.1.7 etholwyr cymwys o'r Plwyf hwnnw.
- 4.2 Os cymeradwyir hynny gan y Cyngor Plwyf Eglwysig, gall personau sy'n preswyllo yn y Plwyf ac sydd naill ai'n gymunwyr yn y Plwyf ond heb fod yn etholwyr cymwys, neu sy'n aelodau llawn mewn Eglwysi sydd mewn cyfamod â'r Eglwys yng Nghymru, fod yn bresennol a siarad, ond nid pleidleisio.
- 4.3 Yn ôl doethineb y Cadeirydd, gall personau eraill fod yn bresennol, ond ni chânt siarad na phleidleisio.
5. Os daw i sylw Esgob yr Esgobaeth:
 - 5.1 bod y Cwrdd Festri Blynyddol heb ei gynnal; neu
 - 5.2 bod y Wardeniaid, y Cynghorwyr Plwyf Eglwysig neu gynrychiolwyr y plwyf yng Nghynhadledd yr Esgobaeth neu Gynhadledd y Ddeoniaeth heb eu hethol na'u penodi; neu
 - 5.3 bod cynrychiolwyr y plwyf ar Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth heb eu hethol na'u penodi; neu
 - 5.4 bod cyfarfodydd o'r Cyngor Plwyf Eglwysig heb eu cynnal yn unol â Phennod IV C adran 8;

gall yr Esgob benodi Wardeniaid, Cynghorwyr Plwyf Eglwysig neu gynrychiolwyr plwyfol fel y bo angen, a gall wysio cyfarfod o'r Cyngor Plwyf Eglwysig, ac ym mhob achos o'r fath bydd yr Esgob yn adrodd am yr hyn a wnaeth o dan y Rheoliad hwn i gyfarfod nesaf Cynhadledd yr Esgobaeth.

- 3.4 In a Rectorial Benefice a Vicar designated by the Rector may take the chair. In a vacancy in a Rectorial Benefice the chairman shall be a Vicar of that benefice designated by the Area Dean or, where the office of Area Dean is vacant, by the Archdeacon.
- 3.5 In any other circumstances, the chairman shall be chosen by the Meeting.
- 3.6 The chairman shall have a casting vote, save that when the chairman is a cleric this provision shall not apply to the election of lay persons.
- 4.1 The following persons shall have the right to attend, speak and vote at Vestry Meetings:
 - 4.1.1 the Incumbent or in a vacancy or suspended incumbency the cleric-in-charge where appointed, or where no cleric in charge has been appointed the Area Dean or the Archdeacon as appropriate;
 - 4.1.2 Vicars in a Rectorial Benefice;
 - 4.1.3 Assistant Curates;
 - 4.1.4 Deaconesses;
 - 4.1.5 full-time stipendiary Lay Workers;
 - 4.1.6 any other Clerics with a licence or permission to officiate, who are resident in the Parish and not beneficed in or licensed to any other Parish; and
 - 4.1.7 qualified electors of that Parish.
- 4.2 With the approval of the Parochial Church Council, residents in the Parish who are either communicants but not qualified electors of that Parish or are communicant members of Churches in covenant with the Church in Wales, may attend and speak, but not vote.
- 4.3 At the discretion of the chairman, other persons may attend but neither speak nor vote.
5. If it is brought to the notice of the Diocesan Bishop that:
 - 5.1 the Annual Vestry Meeting has not been held; or
 - 5.2 Churchwardens, Parochial Church Councillors, or the parochial representatives on the Diocesan Conference or the Deanery Conference have not been elected or appointed; or
 - 5.3 the parochial representatives on the Diocesan Nomination Board have not been elected or appointed; or
 - 5.4 meetings of the Parochial Church Council have not been held as provided by Chapter IV C section 8;the Bishop may appoint Churchwardens, Parochial Church Councillors or parochial representatives as the case may require and may summon a meeting of the Parochial Church Council, and in each such case the Bishop shall report any action taken by him under this Regulation to the next meeting of the Diocesan Conference.

Rhan II: Cyrddau Cynulleidfaol

- 6.1 Mewn Plwyfi sydd â mwy nag un eglwys, gellir cynnal Cwrdd Cynulleidfaol cyn unrhyw Gwrdd Festri. Bydd Cwrdd Cynulleidfaol o'r fath yn agored i bob etholwr cymwys sy'n mynychu'r eglwys dan sylw yn arferol, a hefyd i'r personau hynny a grybwyllir yn Rheoliadau 4.1.1 hyd 4.1.6.
- 6.2 Mewn Plwyfi sydd â mwy nag un Eglwys, gall pob Cwrdd Cynulleidfaol a gynhelir dan Reoliad 6.1 ethol Pwyllgor Eglwysig i ymdrin â materion yn ymwneud â'r eglwys arbennig honno. Bydd y cyfryw Bwyllgor Eglwysig yn atebol i'r Cyngor Plwyf Eglwysig. Bydd is-wardeniaid yr eglwys arbennig honno, ac unrhyw aelodau eraill o'r Cyngor Plwyf Eglwysig sy'n ei mynychu'n arferol, yn aelodau yn rhinwedd eu swydd o'r Pwyllgor Eglwysig.

Rhan III: Y Rhôl Etholwyr

- 7.1 Y mae Rhôl yr Etholwyr ("y Rhôl") i'w harddangos ym mhob Cwrdd Festri.
- 7.2 Cyfrifoldeb y Cyngor fydd gofalu am y Rhôl ac, o fewn terfynau darpariaethau Rheoliadau 7.3, rhaid ei diwygio cyn pob Cwrdd Festri Blynyddol. Y mae copi o'r Rhôl, a hysbysiad o'r bwriad i'w diwygio, i'w arddangos yn ymyl prif ddrws eglwys y Plwyf am o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg cyn cychwyn y diwygio blynyddol, a rhaid gorffen y diwygio o leiaf bymtheng niwrnod cyn y Cwrdd Festri Blynyddol. Mewn Plwyfi sydd â mwy nag un eglwys, rhaid arddangos copi o'r Rhôl a'r hysbysiad ym mhob eglwys.
- 7.3 Bydd y Rhôl yn mynd yn ddi-rym yn union cyn y Cwrdd Festri Blynyddol yn 2010 a phob pum mlynedd wedyn, pan baratoir Rhôl newydd. Y mae hysbysiad o'r bwriad i baratoi Rhôl newydd i'w arddangos yn ymyl prif ddrws pob eglwys yn y Plwyf am o leiaf bymtheng niwrnod cyn dechrau paratoi'r Rhôl newydd.
- 7.4 Paratoir y Rhôl newydd dan gyfarwyddyd y Cyngor Plwyf Eglwysig, a bydd pob person sydd am gael cynnwys ei enw ynddi yn gwneud cais yn unol â darpariaethau Pennod IV C adran 4. Bydd yn ofynnol i bersonau yr oedd eu henwau ar y Rhôl flaenorol wneud cais newydd.
- 7.5 Y mae copi o'r Rhôl newydd i'w arddangos yn ymyl prif ddrws eglwys y Plwyf am o leiaf bymtheng niwrnod cyn y Cwrdd Festri Blynyddol, a daw'r rhôl newydd i rym ar ddechrau'r Cwrdd hwnnw. Mewn Plwyfi sydd â mwy nag un eglwys, rhaid arddangos copi o'r Rhôl ym mhob eglwys.
8. Rhaid i'r Wardeniaid ddangos copi o'r Rhôl i'r Esgob neu'r Archddiacon ar ei gais.
9. Cedwir y Rhôl, pan na fydd angen amdani i unrhyw bwrpas arall, yn niogell eglwys y Plwyf. Mewn Plwyf sydd â mwy nag un eglwys, gall pob eglwys gadw'n ddiogel gopïau o'r Rhôl neu adrannau ohoni.

Part II: Congregational Meetings

- 6.1 In Parishes with more than one church, a Congregational Meeting may be held prior to any Vestry Meeting. Such Congregational Meeting shall be open to qualified electors who normally attend the church in question, together with those persons mentioned in Regulations 4.1.1 to 4.1.6.
- 6.2 In Parishes with more than one Church, each Congregational Meeting held under Regulation 6.1 may elect a Church Committee to deal with matters concerning that particular church. Such Church Committee shall be responsible to the Parochial Church Council. The subwardens for that particular church, and any other members of the Parochial Church Council who normally attend that church, shall be *ex-officio* members of such Church Committee.

Part III: The Electoral Roll

- 7.1 The electoral roll ("the Roll") shall be on display at every Vestry Meeting.
- 7.2 The maintenance of the Roll shall be under the direction of the Parochial Church Council and, save as provided in Regulation 7.3, it shall be revised prior to each Annual Vestry Meeting. A copy of the Roll, and notice of the intended revision of the Roll, shall be displayed near the principal door of the Parish church for at least fourteen days before the commencement of the annual revision, which shall be completed not less than fifteen days before the Annual Vestry Meeting. In Parishes with more than one church, a copy of the Roll and of the notice shall be displayed at each church.
- 7.3 The Roll shall lapse immediately before the Annual Vestry Meeting in 2010 and in every fifth year thereafter, when a new Roll shall be prepared. Notice of the intention to prepare a new Roll shall be displayed near the principal door of every church in the Parish for at least fifteen days before the commencement of the preparation of the new Roll.
- 7.4 The new Roll shall be prepared under the direction of the Parochial Church Council, and all persons wishing to have their names included shall make the application in accordance with the provisions of Chapter IV C section 4. A fresh application shall be required from persons whose names appeared on the previous Roll.
- 7.5 A copy of the new Roll shall be displayed near the principal door of the Parish church for at least fifteen days before the Annual Vestry Meeting, at the commencement of which Meeting the new roll shall come into force. In Parishes with more than one church, a copy of the Roll shall be displayed at each church.
8. A copy of the Roll shall be produced by the Churchwardens to the Bishop or the Archdeacon on request.
9. The Roll, when not otherwise required, shall be kept in the safe of the Parish church. In a Parish with more than one church copies of the Roll or parts thereof may be kept in safe custody by each church.

Rhan IV: Y Cyngor Plwyf Eglwysig

10. Galluoedd a Dyletswyddau

Bydd y Cyngor Plwyf Eglwysig yn ethol llyegion i wasanaethu ar Fwrdd Enwebu'r Esgobaeth yn unol â Rheoliad 1.5 yn Rheoliadau'r Corff Llywodraethol yn ymwneud â Phenodi ac Enwebu.

11.1 Bydd y Cyngor Plwyf Eglwysig yn penodi ysgrifennydd i'r Cyngor a'r Cyrddau Festri, y traethir ei swyddogaeth yn y Rheoliad hwn, a gall benodi dirprwy ysgrifennydd.

11.2 Os digwydd i'r ysgrifennydd a'r dirprwy ysgrifennydd fod yn absennol o gyfarfod, gall y cyfarfod benodi un i fod yn ysgrifennydd i'r cyfarfod hwnnw.

11.3 Bydd yr Ysgrifennydd:

11.3.1 yn bresennol i gadw cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Plwyf Eglwysig a'r Cwrdd Festri;

11.3.2 yn anfon at yr Archddiacon enwau a chyfeiriadau'r Wardeniaid;

11.3.3 yn anfon at y Deon Bro enwau a chyfeiriadau'r rhai a etholir i Gynhadledd y Ddeoniaeth;

11.3.4 yn anfon at Ysgrifennydd Cynhadledd yr Esgobaeth enwau a chyfeiriadau'r rhai a etholwyd i Gynhadledd yr Esgobaeth; ac

11.3.5 yn anfon at Ysgrifennydd Bwrdd Enwebu'r Esgobaeth enwau a chyfeiriadau'r rhai a etholwyd i wasanaethu ar y Bwrdd Enwebu.

11.4 Ni chymhwysir darpariaethau Rheoliad 11.3.5 at Blwyf a gysylltir ag eglwys gadeiriol.

12.1 Bob blwyddyn bydd y Cyngor Plwyf Eglwysig yn penodi trysorydd, a gall benodi dirprwy drysoryddion, i weinyddu cyllid y Plwyf.

12.2 Bydd y Cyngor Plwyf Eglwysig yn peri i gopi o'r cyfrifon a ymchwiliwyd neu a archwiliwyd gael ei arddangos ger prif ddrws yr eglwys neu'r eglwysi, a phob adeilad arall yn y Plwyf a ddefnyddir ar gyfer addoliad cyhoeddus ac sy'n perthyn i'r Eglwys yng Nghymru, a gall hefyd beri arddangos copïau o'r fath mewn adeiladau eraill yn y Plwyf am gyfnod yn cynnwys y ddau Sul yn union cyn diwrnod y Cwrdd Festri Blynnyddol.

Part IV: The Parochial Church Council

10. Powers and Duties

The Parochial Church Council shall elect lay persons to serve on the Diocesan Nomination Board in accordance with Regulation 1.5 of the Governing Body Regulations relating to Appointments and Nominations.

- 11.1 The Parochial Church Council shall appoint a secretary of the Parochial Church Council and of the Vestry Meetings, and may appoint a deputy secretary, whose functions are set out in this Regulation.
- 11.2 In the event of both the secretary and the deputy secretary being absent from a meeting, such meeting shall appoint someone as secretary of that meeting.
- 11.3 The Secretary shall:
 - 11.3.1 attend and keep minutes of the meetings of the Parochial Church Council and of the Vestry Meeting;
 - 11.3.2 send to the Archdeacon the names and addresses of the Churchwardens;
 - 11.3.3 send to the Area Dean the names and addresses of the persons elected to the Deanery Conference;
 - 11.3.4 send to the Secretary of the Diocesan Conference the names and addresses of the persons elected to the Diocesan Conference; and
 - 11.3.5 send to the Secretary of the Diocesan Nomination Board the names and addresses of the persons elected to serve on the Nomination Board.
- 11.4 The provisions of Regulation 11.3.5 shall not apply where a Parish is annexed to a cathedral.
- 12.1 The Parochial Church Council shall appoint a treasurer annually and may appoint deputy treasurers to administer the finances of the Parish.
- 12.2 The Parochial Church Council shall cause a copy of the examined or audited accounts to be displayed near the principal door of the church or churches and of every other building in the Parish used for public worship and belonging to the Church in Wales and also may cause such copies to be displayed at other buildings in the Parish, for a period including the two Sundays immediately preceding the day of the Annual Vestry Meeting.

13. Aelodaeth

- 13.1 Yr aelodau yn rhinwedd swydd fydd y Periglor neu, yn achos perigloriaeth wag neu un a ataliwyd, y clerig-mewn-gofal, os penodwyd un, Ficeriaid mewn bywoliaeth reithorol, Curadiaid cynorthwyol, Diaconesau, Gweithwyr Lleyg cyflogedig amser llawn, y Wardeniaid a'r is-wardeniaid.
- 13.2 Yr aelodau etholedig fydd y cyfryw nifer (heb fod yn fwy na phump ar hugain) o leygion a etholwyd gan y Cwrdd Festri Blynyddol a bennir o bryd i'w gilydd gan y Cwrdd Festri Blynyddol.
- 13.3 Yr aelodau cyfetholedig fydd:
 - 13.3.1 yr ysgrifennydd a'r trysorydd, os nad ydynt eisoes yn aelodau yn rhinwedd swydd neu'n aelodau etholedig;
 - 13.3.2 y nifer hwnnw (heb fod yn fwy na saith) o leygion neu glerigion a bennir gan y Cyngor; ac
 - 13.3.3 unrhyw ddarllenwyr trwyddedig (os oes rhai) a bennir gan y Cyngor; ar yr amod na bydd unrhyw glerig wedi ymddeol ar dir i'w gyfethol.

Rhan V: Wardeniaid, Is-wardeniaid ac Ystlyswyr

14. Wardeniaid

- 14.1 Etholir neu penodir Wardeniaid yn flynyddol ac, yn unol â Rheoliadau 14.2, 14.3 a 14.5, byddant yn eu swydd nes derbynnir eu hollynwyr.
- 14.2.1 Trwy hysbysiad mewn ysgrifen, wedi ei gyfeirio i'r Esgob, gall Warden ymddiswyddo o'i swydd a bydd honno'n wag pan dderbynia'r Esgob y cyfryw hysbysiad. Bydd yr Esgob yn cydnabod yr ymddiswyddiad ar unwaith ac yn hysbysu'r Periglor, y clerig-mewn-gofal neu'r Deon Bro yn ôl fel y digwydd, ynghyd â'r Warden neu'r Wardeniaid eraill, fod y swydd yn wag.
- 14.2.2 Gellir llenwi swydd wag achlysurol ymhlith Wardeniaid unrhyw amser trwy ethol neu benodi yn ôl fel y digwydd, a gwneir hynny mewn Cwrdd Festri a alwyd i'r diben hwnnw.
- 14.3 Ni fydd Wardeniaid yn gymwys i'w hethol na'u penodi yn y flwyddyn nesaf ar ôl cwblhau chwe chyfnod olynol yn eu swydd, ond yn unol â darpariaethau Rheoliad 14.4.
- 14.4 Os rhagwelir y bydd yn anodd cadw at Rheoliad 14.3, gall yr Archddiacon, ar gais oddi wrth Gwrdd Festri, neu ar ei liwt ei hun, ganiatáu rhyddhâd oddi wrth ddarpariaethau'r rheoliad, ond ar hynny rhaid i'r Archddiacon hysbysu'r Esgob am y mater.
- 14.5 Ni fydd Wardeniaid yn gymwys i'w hail-ethol na'u hail-benodi ar ôl cyrraedd yr oedran pan y mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn ymddeol.

13. *Composition*

- 13.1 The *ex-officio* members shall be the Incumbent or, in the case of a vacancy or suspended incumbency, the cleric in charge where appointed, Vicars in a rectorial benefice, assistant Curates, Deaconesses, full-time stipendiary Lay Workers, the Churchwardens and the subwardens.
- 13.2 The elected members shall be such number (not exceeding twenty-five) of lay persons elected by the Annual Vestry Meeting, as shall from time to time be fixed by the Annual Vestry Meeting.
- 13.3 The co-opted members shall be:
- 13.3.1 the secretary and treasurer, if not already *ex-officio* or elected members;
- 13.3.2 such number (not exceeding seven in total) of lay persons or clerics as the Council may determine; and
- 13.3.3 such licensed readers (if any) as the Council may determine; provided that a retired cleric shall not be eligible to be co-opted.

Part V: Churchwardens, Subwardens and Sidespersons

14. *Churchwardens*

- 14.1 Churchwardens shall be elected or appointed annually and, subject to the provisions of Regulations 14.2, 14.3 and 14.5, shall hold office until their successors are admitted.
- 14.2.1 A Churchwarden may, by notice in writing addressed to the Bishop, resign his or her office which shall become vacant on receipt of such notice by the Bishop. The Bishop shall forthwith acknowledge the resignation, and notify the Incumbent, the cleric in charge or the Area Dean as the case may be, and the other Churchwarden or Churchwardens of the vacancy.
- 14.2.2 A casual vacancy among the Churchwardens may be filled at any time by election or appointment as the case may be, effected at a Vestry Meeting called for that purpose.
- 14.3 Churchwardens shall not be eligible for re-election or re-appointment in the year following the completion of six consecutive terms of office, save under the provisions of Regulation 14.4.
- 14.4 If difficulty is foreseen in complying with Regulation 14.3, the Archdeacon, on petition from a Vestry Meeting or on his own initiative, may issue a dispensation from the provisions of the paragraph, but thereupon the Archdeacon shall report the matter to the Bishop.
- 14.5 Churchwardens shall be ineligible for re-election or re-appointment on reaching the age at which membership of the Governing Body ceases.

15. Is-wardeniaid

- 15.1 Mewn Plwyfi sydd â mwy nag un eglwys, gellir enwi dau etholwr cymwys o'r Plwyf i fod yn is-wardeniaid yr eglwys y maent yn ei mynychu'n arferol. Etholir un ohonynt gan y Cwrdd Festri Blynnyddol, ar ôl ei enwebu gan Gwrdd Cynulleidfaol, a phenodir y llall gan y Periglor. Pan fo plwyf yn wag, penodir is-warden yn ôl darpariaethau Pennod IV C isadrannau 13(2) a 13(3).
- 15.2 Cymhwysir darpariaethau Rheoliad 14.3, 14.4 a 14.5 at Is-wardeniaid yn ogystal ag at Wardeniaid.

16. Ystlyswyr

- 16.1 Dyletswyddau'r Ystlyswyr fydd cynorthwyo'r Wardeniaid yn eu dyletswyddau.
- 16.2 Bydd pob Ystlyswr yn etholwr cymwys yn y Plwyf a thros ddeunaw oed.

Rhan VI: Gweinyddiaeth Gyffredinol Plwyfi

17. Infentoriau

- 17.1 Oni orchmynnir yn wahanol mewn ysgrifen gan yr Archddiacon, bydd pob infentori dan ofal y Periglor a'r Wardeniaid, ac fe'i cedwir mewn diogell yn yr eglwys.
- 17.2 Rhaid i'r Periglor a'r Wardeniaid anfon unrhyw infentori at yr Esgob neu'r Archddiacon ar gais y naill neu'r llall.
- 17.3.1 Pan â unrhyw berigloraeth yn wag, bydd yn ddyletswydd ar y Wardeniaid i archwilio llestri'r eglwys a phethau gwerthfawr eraill sy'n eiddo i'r eglwys neu a ddefnyddir ar gyfer addoli mewn unrhyw eglwys neu ystafell genhadol yn y Plwyf, a chymharu'r cyfryw bethau â'r infentoriau, a chyn pen mis wedi i'r berigloraeth fynd yn wag gwneud adroddiad mewn ysgrifen am ganlyniad eu harchwiliad i Ysgrifennydd Corff y Cynrychiolwyr, a fydd yn cyflwyno'r cyfryw adroddiad i gyfarfod nesaf y Corff hwnnw.
- 17.3.2 Ar ôl anfon adroddiad o'r fath at Ysgrifennydd Corff y Cynrychiolwyr, bydd y Wardeniaid yn anfon copi ohono, ynghyd â'r infentoriau, at yr Archddiacon, a fydd yn archwilio'r infentoriau a'u dychwelyd maes o law i'r periglor newydd.

15. *Subwardens*

- 15.1 In Parishes with more than one church two qualified electors of that Parish may be designated as subwardens for the church they normally attend. One such subwarden shall be elected by the Annual Vestry Meeting after nomination by a Congregational Meeting and the other shall be appointed by the Incumbent. In the case of a vacancy, the provisions of Chapter IV C subsections 13(2) and 13(3) shall apply to the appointment of a subwarden.
- 15.2 The provisions of Regulation 14.3, 14.4 and 14.5 shall apply to Subwardens as to Churchwardens.

16. *Sidespersons*

- 16.1 The duties of the Sidespersons shall be to assist the Churchwardens in the performance of their duties.
- 16.2 Each Sidesperson shall be a qualified elector of that Parish over eighteen years of age.

Part VI: General Parochial Administration

17. *Inventories*


- 17.1 Unless the Archdeacon otherwise directs in writing, each inventory shall be under the control of the Incumbent and Churchwardens and shall be kept in a church safe.
- 17.2 Upon being so requested, the Incumbent and Churchwardens shall send any inventory to the Bishop or the Archdeacon as the case may be.
- 17.3.1 On the occasion of a vacancy in any incumbency, it shall be the duty of the Churchwardens to inspect the church plate and other valuable articles belonging to the church or used in the worship of any church or mission room in the Parish, to check such articles against the inventories, and within one month of the vacancy occurring to make a written report of the result of their inspection to the Secretary of the Representative Body, who shall bring such report before the next meeting of that Body.
- 17.3.2 After sending such report to the Secretary of the Representative Body the Churchwardens shall forward a copy thereof, together with the inventories, to the Archdeacon, who shall inspect the inventories and deliver them in due course to the new Incumbent.

18. *Rhoddion*

- 18.1 Bydd y Periglor a'r Wardeniaid yn nodi yn yr infentori yn ddiymdroi fanylion am unrhyw rodd i'r eglwys o lestr eglwysig neu o unrhyw beth gwerthfawr arall i'w ddefnyddio yn y gwasanaethau yn unrhyw eglwys neu ystafell genhadol yn y Plwyf.
 - 18.2 Bydd y cofnod yn yr infentori yn nodi enw'r rhoddwr (os yw'n hysbys), ac ymhle y cedwir y gwrthrych pan nas defnyddir, a bydd yn rhoi manylion am unrhyw yswiriant ynglŷn ag ef.
 - 18.3 Bydd y Periglor yn adrodd am y rhodd i gyfarfod nesaf y Cyngor Plwyf Eglwysig a'r Cwrdd Festri Blynyddol.
 - 18.4 Bydd y Periglor a'r Wardeniaid yn anfon copi o'r cofnod am bob rhodd at yr Esgob ac at Ysgrifennydd Corff y Cynrychiolwyr, a fydd yn adrodd am y rhodd i gyfarfod nesaf y Corff hwnnw.
19. Cyfeirir unrhyw anghydfod neu gwestiwn a gyfyd o Reoliadau 17 neu 18, neu sy'n gysylltiedig mewn unrhyw fodd â'r infentori, at yr Archddiacon, a bydd ei ddyfarniad ef ar y mater yn derfynol.

18. *Gifts*

- 18.1 The Incumbent and Churchwardens shall forthwith enter in the inventory particulars of any gift to the church of church plate or other valuable article to be used in the worship of any church or mission room in the Parish.
 - 18.2 Entries in the inventory shall state the name of the donor (where known), record where each article is kept when not in use, and give particulars of any insurance thereof.
 - 18.3 The Incumbent shall report the gift to the next meeting of the Parochial Church Council and the next Vestry Meeting.
 - 18.4 The Incumbent and Churchwardens shall send a copy of the entry of any gift to the Bishop and to the Secretary of the Representative Body, and the latter shall report the gift to the next meeting of that Body.
19. Any dispute or question arising out of Regulation 17 or 18 or otherwise connected with an inventory shall be referred to the Archdeacon whose decision thereon shall be final.



**Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru.
Argraffwyd ar ddefnyddiau a ailgylchwyd
Produced by the Church in Wales Publications Department.
Printed on recycled materials**